CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
12 Mehefin 2024
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Thomas, H Owens, R G Parry, G Parry, S Jones, J Earnshaw	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.05.24 fel cofnodion cywir. Cyng E Law-Shui Nicholson yn cynnig a Cyng H N Evans yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae hyn yn parhau. Mae'r Brifathrawes yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir
4.2	**Bin Lon Ty Hen** - Cytunwyd i ofyn i Humphreys Waste wagio'r bin unwaith y mis a'i gynyddu i ddwywaith y mis pe bai angen. Bydd y Clerc yn trefnu i cael bin.
4.3	**Diwrnod Agored Maes Chwarae** - Cynhelir y Diwrnod Agored ar 19.07.24. Bydd y Cynghorwyr Iori a Pat Roberts yn gwneud trefniadau terfynol gyda'r Brifathrawes.
4.4	**Cysegru tir ychwanegol y Fynwent** - mae'r Clerc yn aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru.
4.5	**Draenio y maes Chwarae** - Mae'r Clerc yn aros am ddyfynbris arall
4.6	**Neuadd yr Eglwys** - Mae'r Cadeirydd yn ceisio trefnu cyfarfod gyda swyddogion yr Eglwys
4.7	**Anglesey Golf Club** – Cytunwyd y gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
4.8	**Palmant Bryngwran** - Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn cwynion ynghylch tyllau yn y ffordd yn y palmant ger y feddygfa. Mae wedi trefnu gyda'r Cyngor Sir i lenwi'r tyllau.
	Llofnod…….Cadeirydd 23.07.24

5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Brian Jones wedi peintio'r giât yng nghapel Salem ac ychydig o offer ar y cae chwarae. Dywedodd hefyd fod cyllid pellach wedi dod ar gael gan Gynghrair Crigyll.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	MAH/2024/2 Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatád cynllunio HHP/2020/27 er mwyn diwygio er mwyn newid y dyluniad yn Trefin, Lon Farm, Bryngwran, Caergybi – dim sylwadadu
6.2	FPL/2024/106 Cais llawn ar gyfer gosod 14 o baneli solar ar dir yn Pandy Treban, Trefor – dim sylwadadu
6.3	Cynllun Datblygu Lleol Môn (2024-2039) - Os oes gan aelodau unrhyw sylwadau i'w gwneud byddant yn eu hanfon ymlaen at y Clerc
	Priffyrdd
6.4	**Parcio Lon Ty Hen –** Ymateb y Cyngor Sir: **"**Nid oes unrhyw linellau melyn nac unrhyw gyfyngiadau parcio yn y lleoliad hwn. Nid oes gan yr Awdurdod Priffyrdd bwerau i weithredu yn erbyn pobl sydd wedi'u parcio mewn modd sy'n rhwystro'r briffordd. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru bwerau i gymryd camau o dan Adran 137 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn erbyn person, heb awdurdod cyfreithlon nac esgus, sydd mewn unrhyw ffordd yn rhwystro'r briffordd. Efallai yr hoffech godi'r mater hwn gyda Heddlu Gogledd Cymru" Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir a oes unrhyw beth y gallant ei wneud i helpu.
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Llwybrau Cyhoeddus** - Soniodd y Cyng H N Evans am y llwybr cyhoeddus ym Mryngwran Fferm, hefyd y tyllau yn yr ardal. Oherwydd cyflwr y ffordd, mae Biffa bellach wedi gwrthod gwagio'r biniau oherwydd eu bod yn dweud bod y ffordd yn anniogel iddynt ei defnyddio. Cytunwyd bod y Clerc yn archebu cyflenwad o gro hyd at uchafswm gwariant o £500.
7.2	**Ysgol Bryngwran** – gweler 4.1
7.3	**Cyflymder Engedi** - Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn cais i ostwng cyflymder y traffig yn Engedi i 20mya. Daw'r cais gan Mr Elfed Williams o Engedi sydd hefyd wedi paratoi adroddiad i gefnogi'r cais. Derbyniodd yr aelodau yr adroddiad a gofyn i'r Clerc ei anfon ymlaen i'r Cyngor Sir.
	Llofnod…….Cadeirydd 23.07.24

7.4	**Palmant Bryngwran** – gweler 4.8
7.5	**Lwfansau Aelodau** - Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod y lwfans blynyddol ar gael iddynt ac y gellir gwneud y taliad ychwanegol pe bai unrhyw enwebiadau yn cael eu gwneud. Gofynnwyd i'r aelodau lenwi'r ffurflen a dderbyniwyd ganddynt drwy e-bost i ddatgan a ydynt yn dymuno hawlio'r lwfans ai peidio.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Awgrymwyd symud cyfarfodydd i'r ail ddydd Mawrth o bob mis er mwyn caniatáu i'r holl aelodau fod yn bresennol. Bydd y Clerc yn codi hyn gyda'r aelodau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod misol.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Brian Jones £41.08 (paent a brwshys paent)
9.2	JRB Enterprises £65.22 (bagiau gwastraff cwn)
9.3	Zurich Municipal £497.72 (yswiriant)
9.4	Brian Jones £43.65 (paent a brwshys paent)
9.5	Cyngor Ynys Mon £80.24 (rent cae Chwarae)
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 23.07.24